

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dethol deunyddiau, cydrannau ac offer a darparu gorffeniad sgrîd i loriau, sgridiau tywod a smentaidd a/neu llifadwy

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau concrit arbenigol yn arbennig y rhai hynny sy'n ymwneud â gosod lloriau sgrîd a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. dehongli'r wybodaeth a roddir sy'n ymwneud â'r gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd
2. cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a roddir a'r canllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach
3. dethol y nifer a'r ansawdd gofynnol o adnoddau ar gyfer y dulliau gweithio
4. cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal gyfagos
5. cydymffurfio â'r wybodaeth gytundeb a roddir i gyflawni'r gwaith yn effeithlon yn ôl y fanyleb ofynnol
6. cwblhau'r gwaith o fewn yr amser dyranedig, yn unol â'r rhaglen waith

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Meini Prawf Perfformiad 1

Dehongli gwybodaeth

K1 y gweithdrefnau sefydliadol a ddatblygwyd i adrodd a chywiro gwybodaeth **amhriodol** ac adnoddau **anaddas**, a sut y cânt eu gweithredu

K2 y mathau o **wybodaeth**, eu ffynhonnell a sut y cânt eu dehongli

K3 y gweithdrefnau sefydliadol i ddatrys **problemau** â'r **wybodaeth** a pham ei fod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn

Meini Prawf Perfformiad 2

Arferion gwaith diogel

K4 lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithredwyr ei chael o **wybodaeth** ar gyfer **deddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol** a sut y caiff ei gweithredu

K5 sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb

K6 y **gweithdrefnau diogelwch** sefydliadol ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

K7 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad

K8 pam, pryd a sut **y dylid defnyddio offer rheoli** iechyd a diogelwch

K9 sut i gydymffurfio ag arferion gweithio sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn diwallu gofynion deddfwriaeth gyfredol a **chanllawiau swyddogol**

Meini Prawf Perfformiad 3

Dethol adnoddau

K10 y nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a sut y dylid cywiro diffygion

K11 sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut yr adroddir am unrhyw **broblemau** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau**

K12 y gweithdrefnau sefydliadol i ddethol **adnoddau**, pam y cawsant eu datblygu a sut y cânt eu defnyddio

K13 y **peryglon** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a'r **dulliau gweithio** a sut y cânt eu goresgyn

Meini Prawf Perfformiad 4

Lleihau'r risg o ddifrod

K14 sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a phwrpas diogelu

K15 pam y dylid **gwaredu gwastraff** yn ddiogel a sut y caiff ei gyflawni

Meini Prawf Perfformiad 5

Diwallu manyleb y cytundeb

K16 sut mae **dulliau gweithio**, i ddiwallu'r fanyleb, yn cael eu cyflawni a sut y dylid adrodd am **broblemau**

K17 sut mae gwaith **cynnal a chadw** offer a chyfarpar yn cael ei wneud

Meini Prawf Perfformiad 6

Amser wedi'i ddyrannu

K18 beth yw'r **rhaglen** i'r gwaith gael ei wneud yn yr amser amcangyfrifedig, dyranedig a pham y dylid cadw at derfynau amser

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Meini Prawf Perfformiad 1

1 dehongli lluniadau, manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud

Meini Prawf Perfformiad 2

2 osgoi risg trwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir sy'n ymwneud â'r dilynol

2.1 dulliau gweithio

2.2 defnydd diogel o offer rheoli iechyd a diogelwch

2.3 defnyddio, storio a thrin deunyddiau yn ddiogel

2.4 defnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel

2.5 risgiau penodol i iechyd

Meini Prawf Perfformiad 3

3 dethol adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun

3.1 deunyddiau, cydrannau a ffitiadau

3.2 offer a chyfarpar

Meini Prawf Perfformiad 4

4 diogelu'r gwaith a'r ardal gyfagos rhag difrod

5 lleihau difrod a chynnal lle gweithio glân

6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Meini Prawf Perfformiad 5

7 arddangos sgiliau gweithio i fesur, amlinellu, lleoli, sicrhau, ffurfio, sicrhau, cymysgu, cludo, gosod, profi, crynhoi, diogelu a chaledu

8 defnyddio a chynnal offer llaw, offer pŵer cludadwy ac offer ategol

9 gosod sgridau ar loriau a grisiau hyd at gyfarwyddiadau gweithio penodol gan ddefnyddio sgridau tywod a smentaidd neu sgridau llifadwy

Meini Prawf Perfformiad 6

10 cwblhau eich gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig, dyranedig i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill ac/neu y cleient

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gwaredu gwastraff

1 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau sefydliadol, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Argyfyngau

2 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ymwneud â

2.1 thanau, colledion, anafiadau

2.2 argyfyngau'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

Peryglon

3 y rhai hynny a nodir trwy asesiad risg, dull gweithio, gwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

4 a nodir gan egwyddorion diogelu ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith ac amgylchedd gwaith cyffredinol

4.1 mesurau amddiffynnol ar y cyd

4.2 gwyntyllu egsôst lleol (LEV)

4.3 offer diogelu personol (PPE)

4.4 offer diogelu anadlol (RPE)

Gwybodaeth

5 lluniadau, manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, cyfarwyddiadau gwaith, data electronig, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a rheoliadau cyffredol

Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol

6 mae hyn yn ymwneud â chyfrifoldebau'r gweithiwr ynghylch damweiniau posibl, peryglon iechyd a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle, islaw lefel y ddaear, mewn lleoedd cyfyng, ar uchder, ag offer a chyfarpar, â deunyddiau a sylweddau, â symud/storio deunyddiau a thrwy trin â llaw a chodi mecanyddol

Cynnal a Chadw

7 gofal gweithredol o offer llaw, offer pŵer cludadwy ac offer ategol

Dulliau gweithio

8 cymhwyso gwybodaeth ar gyfer arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â'r dull/maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir

8.1 gosod ar gyfer llinell a lefel

8.2 lleoli a diogelu gwasanaethau paratoi ar y safle (gwresogi, dŵr, nwy, trydan a gwastraff)

8.3 paratoi a diogelu treiddiadau gwasanaeth

8.4 lleoli a sicrhau atgyfnerthiad, gwahanwyr a gosodiadau

8.5 ffurfio mewnfeydd draenio, sianeli draenio ac allfeydd

8.6 ffurfio cymalau, symud (ehangu), gwrth-grac sy'n berthnasol i feintiau bae

8.7 archwilio swbstrad a baratowyd i gynnwys glendid, profi a gosod paent preimio a philenni gwrth-leithder (DPM)

8.8 gwirio a monitro amgylchiadau amgylchynol

8.9 cymysgu sgridau gan ddefnyddio cymysgydd padl, troellog a gweithredu gorfodol

8.10 cludo deunydd sgrîd gan ddefnyddio modd mecanyddol (pymplau, bagiau swmp trwy offer codi) ac â llaw (wedi'i rawio, neu â berfa)

8.11 gweithio ag ac o amgylch peiriannau a pheirianwaith

8.12 profi cymysgedd sgrîd ar gyfer cysondeb

8.13 paratoi samplau i'w profi

8.14 gosod a chywasgu sgrîd (trawst sgrîd dirgrynol a rholeri) i loriau ac o amgylch gosodiadau i drwch, lefel a gorffeniad penodol

8.15 monitro a rheoli amlygiad i ddirgrynu

8.16 diogelu a pharatoi sgrîd

8.17 cydnabod a phenderfynu pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth benodol ac adrodd yn unol â hynny

8.18 diwallu'r meini prawf ansawdd cytunadwy

8.19 cofnodi ac adrodd

8.20 defnyddio offer llaw, offer pŵer cludadwy ac offer ategol

9 gwaith tîm a chyfathrebu

10 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â gosod lloriau sgrîd

Problemau

11 y rhai hynny sy'n deillio o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio

11.1 eich awdurdod eich hun i unioni

11.2 gweithdrefnau adrodd sefydliadol

Rhaglen

12 mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd amcangyfrifedig

13 gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

Diogelu gwaith

14 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw

Adnoddau

15 deunyddiau, cydrannau ac offer sy'n ymwneud â mathau, nifer, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd

15.1 ategolion estyll, atgyfnerthu a draenio safonol ac/neu arbenigol

15.2 cymalau symud ac adeiladu

15.3 cyfryngau clymu, tywod, sment, ychwanegion, agregau, cyfryngau lliwio, pilenni

15.4 sgridau llifadwy

15.5 offer llaw ac/neu gyfarpar pŵer cludadwy ac offer ategol

16 dulliau cyfrifo nifer, hyd, arwynebedd, cyfaint a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull/gweithdrefn i osod lloriau sgrîd

Gweithdrefnau diogelwch

17 safle, gweithle, cwmni a gweithiwr

Datblygwyd gan	Construction Skills
Dyddiad cymeradwyo	31 Rhag 2013
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Rhag 2018
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR314
Galwedigaethau perthnasol	Plastrwyr
Cyfes/Set	Plastro (Adeiladu), Galwedigaethau Concrit Arbenigol (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Sgridau smentaid; Sgridau llifadwy; Cilfwadau; Allfeydd; Sianeli draenio; Cyfryngau lliwio; Sgridau Cymysgedd